# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD ARBENNIG Y BWRDD PENSIWN LLEOL

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DDYDD LLUN, 4 GORFFENNAF 2016 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL:**

**Cynrychiolwyr Cyflogwyr:**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd A Lockyer | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Y Cynghorydd J E C Harris | Dinas a Sir Abertawe |
| J Andrew | Cyfarwyddwr Cyllid Cartrefi CNPT |

**Cynrychiolwyr Aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol:**

| | |
|---|---|
| A Chaves | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| I Guy | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| A Thomas | Dinas a Sir Abertawe |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jeffrey Dong | Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol |
| Mike Hawes | Cyfarwyddwr Adnoddau/Swyddog Adran 151 |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| A Johnson | Hymans Robertson |

1 **ETHOL CADEIRYDD AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG 2016/2017.**

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd A Lockyer yn gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2016-2017.

**(BU'R CYNGHORYDD A LOCKYER YN LLYWYDDU)**

Diolchodd Mr Ian Guy, y cadeirydd ymadawol, i bawb a oedd yn bresennol am eu cefnogaeth, yn enwedig Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol a'i staff am eu cymorth a'u cyngor.

2 **ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG 2016/2017.**

**PENDERFYNWYD** ethol y A Thomas yn Is-gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2016 - 17.

3 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol: -

J Andrew – Yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Abertawe – personol.

A Chaves – Yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Abertawe – personol.

I Guy – Yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Abertawe – personol.

Y Cynghorydd A Lockyer – Aelod o Fwrdd Cartrefi CNPT – personol.

A Thomas – Yr agenda yn ei chyfanrwydd – Aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Abertawe – personol.

4 **GWAHARDD Y CYHOEDD.**

Gofynnwyd i'r Bwrdd wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Bwrdd Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

5 **CYD-ARGYMHELLIAD YR AWDURDOD (AR Y CYD Â CHRONFEYDD PENSIWN CYMRU) I ADRAN CYMUNEDAU A LLYWODRAETH LEOL A HMT AR EU CYNIGION CYFUNO - CYFLWYNIAD GAN HYMANS ROBERTSON, YMGYNGHORWYR I GYMDEITHAS DRYSORYDDION CYMRU.**

Rhoddodd A Johnson, Hymans Robertson, gyflwyniad ar gyd-argymhelliad yr awdurdod (ynghyd â chronfeydd pensiwn eraill Cymru) i'r Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol a Thrysorlys ei Mawrhydi ar ei gynigion cyfuno.

Rhoddodd yr argymhelliad ymatebion i'r meysydd canlynol, ar gais y llywodraeth: -

- A: Cronfeydd asedau sy'n cyflawni buddion graddfa.
- B: Llywodraethu a phenderfynu cryf.
- C: Costau llai a gwerth ardderchog am arian.

- Ch. Gallu gwell i fuddsoddi mewn isadeiledd.

Gofynnodd y pwyllgor nifer o gwestiynau i gynrychiolydd Hyman Robertson, a ymatebodd yn briodol.

**PENDERFYNWYD** ar y canlynol: -

1) Dylid nodi cynnwys y cyflwyniad llafar;
2) Dylid cyflwyno'r argymhelliad terfynol yn y cyfarfod nesaf a drefnir.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.15 p.m.

**CADEIRYDD**